IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MERCHER, 6 MAWRTH 2024

Yn bressenol: Cynghorydd Michael (Cadeirydd)
Cynghorwyr Lancaster a/ac Palmer

9 : EITHRIO'R CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitem hon.

10 : MATERION CERBYDAU HACNI/CERBYDAU LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid ymdrin â'r materion canlynol fel y nodir:

(1) Cais 1

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a oedd gyrrwr yn parhau'n berson addas a phriodol i barhau i ddal Trwydded Gyrru Cerbyd Hurio Preifat yn dilyn gweithrediad siopwr dirgel a arweiniodd at y gyrrwr yn methu â defnyddio'r mesurydd ac yn codi mwy na'r tâl cyfreithiol.

Wrth siarad gerbron yr Is-bwyllgor, dywedodd y gyrrwr nad oedd yn gallu dwyn i gof y digwyddiad dan sylw ond ei fod yn hynod flin, a sicrhaodd yr Aelodau na fyddai byth yn digwydd eto.

Wrth siarad gerbron yr Is-bwyllgor, dywedodd y tyst ei fod wedi cymryd rhan mewn gweithrediad ar y cyd ochr yn ochr â'r adran drwyddedu yn ei rôl fel cwnstabl arbennig, gan weithredu mewn dillad plaen ochr yn ochr â gwirfoddolwr a oedd yn cefnogi'r heddlu. Roeddent wedi cynnal pryniannau prawf i wirio cydymffurfiaeth cerbydau hurio preifat a cherbydau hacni drwy gydol y noson. Yn hwyr gyda'r nos, aethant at y tacsi dan sylw gan ei fod yn ceisio cael ei hurio ar Albert Street a gofynnon nhw am daith i'r Tramshed. Gofynnodd y gyrrwr am £10 ymlaen llaw, a dalwyd ganddynt. Ni ddefnyddiwyd y mesurydd ar unrhyw adeg yn ystod y daith ac ni wnaeth y gyrrwr unrhyw ymgais i roi unrhyw newid iddynt.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, dywedodd y gyrrwr nad oedd yn siŵr a oedd wedi defnyddio'r mesurydd, ond roedd yn deall ei fod i fod ei ddefnyddio. Efallai ei fod wedi torri, ond nid oedd yn cofio.

Gofynnodd yr Aelodau pa mor aml y gofynnodd y gyrrwr am dâl ymlaen llaw. Ymatebodd gan ddweud ei fod yn dibynnu ar y

cwsmer a'r daith, ond yn gyffredinol byddai'n ei wneud ar y diwedd.

**PENDERFYNWYD – atal y drwydded gyrru Cerbyd Hurio Preifat am 7 diwrnod, ac y gofynnir i'r gyrrwr ymgymryd â chymhwyster perthnasol Awdurdod Cymwysterau'r Alban (Tystysgrif Lefel 2 Cyflwyniad i Rôl y Gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat a Thacsi Proffesiynol) ar ei gost ei hun.**

(2) Cais 2

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a oedd gyrrwr yn parhau'n berson addas a phriodol i barhau i ddal Trwydded Gyrru Cerbyd Hurio Preifat yn dilyn gweithrediad siopwr dirgel a arweiniodd at y gyrrwr yn methu â defnyddio'r mesurydd ac yn codi mwy na'r tâl cyfreithiol.

Wrth siarad gerbron yr Is-bwyllgor, cofiodd y gyrrwr ei fod wedi gofyn am daliad ymlaen llaw cyn mynd â dau deithiwr o ger y castell i gyfeiriad yn Cathays. Roedd wedi gofyn am hyn oherwydd ei bod yn gyffredin ar nos Sadwrn i deithwyr redeg i ffwrdd heb dalu. Hefyd nid oedd ganddo ddarllenydd cerdyn yn ei dacsi ac roedd wedi cael problemau o'r blaen gyda phobl nad oeddent yn gallu talu ar ddiwedd y daith.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, dywedodd y gyrrwr fod y mesurydd wedi bod yn rhedeg drwy gydol y daith, a'i fod wedi cyfrifo tâl o £7.10. Roedd wedi ceisio rhoi £2.90 o newid i'r teithwyr ar y diwedd ond gwnaethon nhw adael cyn iddo allu gwneud hynny.

Wrth siarad gerbron yr Is-bwyllgor, dywedodd y tyst ei fod wedi cymryd rhan mewn gweithrediad ar y cyd ochr yn ochr â'r adran drwyddedu yn ei rôl fel cwnstabl arbennig, gan weithredu mewn dillad plaen ochr yn ochr â gwirfoddolwr a oedd yn cefnogi'r heddlu. Roeddent wedi cynnal pryniannau prawf i wirio cydymffurfiaeth cerbydau hurio preifat a cherbydau hacni drwy gydol y noson. Roedd y daith benodol hon o Stryd y Castell i Blackweir Tavern, a gofynnodd y gyrrwr am £10 ymlaen llaw a dalwyd ganddynt.

Ychwanegodd y tyst fod ganddo olygfa ddirwystr o'r mesurydd drwy gydol y daith, ac er ei fod wedi'i droi ymlaen nid oedd yn cofnodi tal. Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd nad oedd y gyrrwr wedi dweud unrhyw beth am y ffaith bod y mesurydd wedi'i dorri, ac nad oedd ef na'r teithiwr arall wedi gofyn iddo gael ei droi ymlaen.

Gofynnodd yr Aelodau i'r gyrrwr a gododd dâl ar deithwyr ymlaen llaw yn rheolaidd. Ymatebodd y gyrrwr gan ddweud ei fod yn gwneud hynny ar y penwythnos, gan mai dyma pryd roedd pobl yn rhedeg i ffwrdd heb dalu'n fwyaf cyffredin.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd wedi dweud wrth y teithiwr ymlaen llaw y byddai'n rhoi newid iddo ar y diwedd, a chadarnhaodd nad oedd wedi gwneud hynny.

Gofynnodd yr Aelodau i'r tyst a oedd wedi sylwi ar y gyrrwr yn ceisio rhoi'r £2.90 o newid iddo. Ymatebodd y tyst gan ddweud nad oedd wedi sylwi ar hyn, ac ychwanegodd eu bod wedi gwneud yn siŵr o fewn y broses prynu prawf i roi pob cyfle i'r gyrrwr wneud hyn. Nid y bwriad oedd dal gyrwyr ar eu bai, dim ond gwirio cydymffurfiaeth.

**PENDERFYNWYD – atal y drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat am 14 diwrnod.**

(3) Cais 3

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a oedd gyrrwr yn parhau'n berson addas a phriodol i barhau i ddal Trwydded Gyrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat yn dilyn cwyn yn honni anghwrteisi a rhegi at deithiwr.

Wrth siarad gerbron yr Is-bwyllgor, dywedodd y gyrrwr ei fod wedi cyrraedd prif fynedfa Ysbyty'r Mynydd Bychan i gasglu teithiwr a oedd wedi archebu ymlaen llaw. Roedd y teithiwr mewn cadair olwyn ac roedd yn cael rhywfaint o drafferth mynd i mewn i'r car, felly helpodd hi i fynd i mewn a phlygu ei chadair olwyn i'w rhoi yn y bŵt. Roedd hi'n teimlo dan straen ac yn gweiddi arno. Roedd yn sefyllfa rwystredig gan fod ceir yn aros y tu ôl iddynt ac yn bod yn ddiamynedd iawn. Dywedodd y teithiwr ei bod hi'n mynd i wneud cwyn am ei fod wedi bod yn anghwrtais iddi. Ar ôl talu'r tâl, dywedodd hi nad oedd yn ffit ar gyfer y swydd a rhegi ato cyn gadael.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd y gyrrwr ei fod yn casglu teithwyr o Ysbyty'r Mynydd Bychan yn rheolaidd, a bod llawer ohonynt yn anabl.

Wrth siarad gerbron yr Is-bwyllgor, roedd y tyst yn herio'r ffaith ei bod hi wedi rhegi at y gyrrwr. Ni wnaeth hi regi heblaw pan oedd hi'n rhoi ei hesboniad o'r hyn a oedd wedi digwydd i Dragon Taxis. Mynnodd y gyrrwr nad oedd wedi rhegi ati hi chwaith.

Ychwanegodd y tyst ei bod wedi blino iawn ar y pryd a bod angen mwy o help arni na'r arfer i fynd i mewn i'r car. Roedd hi'n deall ei bod yn sefyllfa lawn straen ond pwysleisiodd hi na wnaeth hi godi ei llais na gweiddi. Cafodd hi'r argraff nad oedd am ei helpu hi er gwaethaf cymryd y tâl. Gwnaeth regi a chwyno'n gyson, felly dywedodd hi wrtho nad oedd yn addas i fod yn yrrwr tacsi. Roedd yn brofiad erchyll ac roedd hi'n teimlo dan fygythiad gan nad oedd hi'n gallu gadael y car gyda'i chadair olwyn yn y bŵt.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd y tyst ei bod hi’n defnyddio tacsis yn rheolaidd, gan gynnwys rhai Dragon. Fel arfer byddai hi’n gofyn am gerbyd sy'n hygyrch i gadair olwyn ond prin oedd y rhain, ac roedd mod plygu ei chadair, felly byddai’n aml yn defnyddio rhai rheolaidd.

Honnodd y gyrrwr, pan agorodd y drws i'r teithiwr, iddi weiddi arno i nôl ei chadair cyn iddo gael cyfle i wneud hynny, ac iddi ddadlau a rhegi gydol y daith. Gwadodd y tyst ei bod hi wedi defnyddio iaith ddrwg.

**PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn cael rhybudd ysgrifenedig.**

(4) Cais 4

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a oedd gyrrwr yn parhau’n berson addas a phriodol i barhau i ddal Trwydded Gyrru Cerbyd Hurio Preifat yn dilyn cwyn yn honni ymgais i godi tâl gormodol.

Wrth siarad gerbron yr Is-bwyllgor, dywedodd y gyrrwr ei fod ef a gyrwyr eraill yn gofyn yn rheolaidd am arian ymlaen llaw yn hwyr yn y nos dros y penwythnos. Derbyniodd ei fod wedi gofyn i'r teithwyr am arian ymlaen llaw ond pwysleisiodd ei fod wedi troi'r mesurydd ymlaen a'i fod yn bwriadu rhoi eu newid iddynt ar y diwedd.

Wrth siarad gerbron yr Is-bwyllgor, dywedodd y tystion eu bod wedi mynd at y tacsi ar Stryd y Castell yn yr oriau mân gan ofyn i fynd i gyfeiriad yn Gabalfa ac yna ymlaen i'r Eglwys Newydd. Gofynnodd y gyrrwr iddynt am £30 ymlaen llaw, ac roeddent yn teimlo bod hyn yn ormodol. Gofynnon nhw iddo roi'r mesurydd ymlaen ond dywedodd ei fod wedi torri.

Ychwanegodd y tystion eu bod yn gwneud y daith hon yn rheolaidd ac y byddai'r tâl fel arfer yn sylweddol is na £30, a'u bod yn ymwybodol bod angen i yrwyr ddefnyddio'r mesurydd, felly gwnaethon nhw ei herio ar hyn. Ni aethon nhw i mewn i’r tacsi ac yn lle hynny aethon nhw at y gyrrwr nesaf, a gytunodd i fynd â nhw ar y mesurydd yn syth. Gofynnodd yr Aelodau faint roeddent yn ei dalu fel arfer, ac amcangyfrifodd y tystion rhwng £12 a £14.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd y gyrrwr ei fod yn gwybod na ddylai fod yn gyrru gyda mesurydd wedi’i dorri. Ychwanegodd nad oedd ei fesurydd wedi’i dorri ac anghytunodd â’r ffaith ei fod wedi dweud wrth y teithwyr ei fod wedi’i dorri. Roedd swyddog trwyddedu wedi gwirio ei fesurydd y diwrnod canlynol ac wedi canfod ei fod yn gweithio.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, dywedodd y

gyrrwr fod pob gyrrwr yn gofyn am arian ymlaen llaw ar ôl amser penodol o'r nos yn ei brofiad gan mai dyma'r unig ffordd i atal teithwyr rhag rhedeg i ffwrdd heb dalu. Pwysleisiodd yr Aelodau mai ei swydd oedd mynd â theithwyr gyda'r mesurydd wedi’i droi ymlaen, ac nad oedd rheoliadau'r Cyngor yn caniatáu i yrwyr tacsi godi tâl ymlaen llaw am deithiau sy'n dechrau ac yn gorffen yng Nghaerdydd.

Eglurodd y Swyddog Trwyddedu fod gyrwyr yn cael gofyn am flaendal rhesymol, ond ni ddylai hyn fod yn fwy na hanner cyfanswm y tâl. Roedd y £30 y gofynnwyd amdano ymlaen llaw yn yr achos hwn yn llawer mwy na gwerth y daith.

**PENDERFYNWYD – atal y drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat am 14 diwrnod.**

(5) Cais 5

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a yw gyrrwr yn parhau’n berson addas a phriodol i ddal Trwydded Gyrru Cerbyd Hurio Preifat o ystyried ei fod wedi cael ei farnu’n euog o 3 throsedd yrru gan arwain at 9 pwynt cosb.

Wrth siarad gerbron yr Is-bwyllgor, amlygodd y gyrrwr ei fod wedi datgan y 9 pwynt ar yr eiliad gynharaf bosibl yn hytrach nag aros tan y dyddiad adnewyddu. Esboniodd sut yr oedd pob un o'r troseddau wedi digwydd a phwysleisiodd ei fod bellach yn gyrru'n llawer mwy gofalus o ganlyniad.

**PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn cael rhybudd ysgrifenedig.**

(6) Cais 6

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a yw gyrrwr yn parhau’n berson addas a phriodol i ddal Trwydded Gyrru Cerbyd Hurio Preifat o ystyried ei fod wedi cael ei farnu’n euog o drosedd gan arwain at garchariad.

Nid oedd y gyrrwr yn bresennol. Wrth siarad gerbron yr Is-bwyllgor, dywedodd cyfreithiwr y gyrrwr nad oedd yn gallu bod yn bresennol gan ei fod yn cyflawni dedfryd o garchar. Nid oedd yn gallu rhoi unrhyw wybodaeth bellach ar ran y gyrrwr.

**PENDERFYNWYD - dirymu’r drwydded gyrru Cerbyd Hurio Preifat.**

(7) Cais 7

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried cais gyrrwr am Drwydded Gyrru Cerbyd Hacni a Hurio Preifat o ystyried y ffaith bod ganddo euogfarn yn groes i’r canllaw.

Yn absenoldeb yr ymgeisydd, gohiriwyd yr eitem.

(8) Cais 8

Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a oedd gyrrwr yn parhau'n berson addas a phriodol i barhau i ddal Trwydded Gyrru Cerbyd Hurio Preifat o ystyried y ffaith bod problem gyda phroses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) wrth adnewyddu ei drwydded. Yn dilyn gwrandawiad pwyllgor ym mis Ionawr lle trafodwyd yr achos cychwynnol, cafodd y gyrrwr ei wahardd am fis er mwyn cwblhau'r broses GDG newydd, a dywedwyd wrtho y byddai methu â chyflwyno'r dystysgrif yn arwain at ddod â'r achos yn ôl i'r pwyllgor. Methodd y gyrrwr hefyd â dychwelyd ei fathodynnau yn ystod y cyfnod gofynnol.

Nid oedd y gyrrwr yn bresennol. Esboniodd y Swyddog Trwyddedu fod y gyrrwr wedi gofyn am fwy o amser i gyflwyno tystysgrif y GDG, ac awgrymodd fod y pwyllgor yn ymestyn y gwaharddiad a osodwyd yng nghyfarfod mis Ionawr nes iddo wneud hynny.

**PENDERFYNWYD – atal y drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat am un mis.**